

(uchod) Nadolig adeg Y Pasg? Na – dim cweit! Ond does dim rheswm o gwbl dros beidio â chynnwys llun o ddrama'r Nadolig, waeth beth fo'r tymor! Pwy a ŵyr pa seren ddaw o blith y cast welwyd yn cyflwyno "Nadolig Eisteddfodol" – ac er nad yw'r llun hwn yn adlewyrchu hynny, roedd ambell aelod aeddfetach yn y cast y tro hwn!

## *Trefn y Suliau:*

**EBRILL**
6 Parch Dafydd Owen
13 Parch R Alun Evans (**Cymun**)
19 **Cyfarfod Sefydlu 'r Parch. R Alun Evans** [2.00 Sadwrn])
20 Dr Neville Evans
27 Parch R Alun Evans

**MAI**
4 Parch Hugh Matthews
11 Parch R Alun Evans (**Cymun Mawr Mai**)
18 Parch Noel Davies (Cwrdd Mawr)
25 Parch Peter Cutts

**MEHEFIN**
1 Oedfa wythnos Cymorth Cristnogol y plant
8 Parch R Alun Evans (**Cymun**)
15 Parch Caradog Evans
22 Parch R Alun Evans
29 Parch Ken Williams

**GORFFENNAF**
6 Parch Dafydd Andrew Jones
13 Parch R Alun Evans (**Cymun**)
20 Gwasanaeth Ardal – Radur
27 Parch R Alun Evans – yn Bethlehem

**AWST**
3 **Cymun** – Tabernacl, Efail Isaf (10.45)
10 Parch Gerald Jones –Bethlehem
17 Tabernacl, Efail Isaf (10.45)
24 (i'w drefnu) Bethlehem
31 Tabernacl, Efail Isaf (10.45)

## *Gair o'r Gwaelod*

**Croeso i'r aelodau newydd:**

- Rhian ac Alan Butler Jones, (ac Osian Llywelyn,) sy'n byw yn Riverglade, Gwaelod y Garth.
- Beth Spear, sydd hefyd yn byw yn Riverglade

**... a chroeso i'r newydd anedig:**

- Mari – merch Sara a Rhodri Gibson, wyres i Marian a John Evans, Radur
- William, mab i David a Melanie, Creigiau, ac ŵyr i Elen & John Lewis, Radur (gyrhaeddodd fel roedden ni'n dosbarthu'r rhifyn diwethaf o'r bwletin)

**Mynegi eu diolch:**

- Mae Eirlys ac Esyllt eisiau diolch yn fawr iawn i holl aelodau Bethlehem am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth llynedd. "Diolch arbennig i'r rhai a gymerodd ran yng ngwasanaeth angladd T.J. ac i Marian a'r merched fu'n paratoi'r bwyd yn y Festri. Gwelsom a chawsom deulu Bethlehem ar ei orau."
- Yn yr un modd, mae Idris Hughes a'r teulu, am fynegi eu diolch i'r rhai fu mor garedig yn ystod cyfnod colli Eluned.

**Dymuniadau da i:**

- Lowri Clement a Gwion sy'n priodi ym Methlehem ar Ebrill 26

# 7500 x 23



*Eluned Davies Scott yn sôn am ei thaith i Tsieina*

Na - nid swm fathemategol yw hon ond rhan o hanes 12 ohonom aeth ar daith i Tsieina ym mis Tachwedd 2007.
Cychwyn o Gaerdydd a chyrraedd Chongqing – tua 7500 milltir, 23 awr o siwrne.
Ble yn y byd mae Chongqing? Dyna oedd y cwestiwn ofynnais i fy hunan ddeg mis yn gynharach pan gefais fy ngwahodd i fod yn aelod o ddirprwyaeth o Brydain i fynd i Tsieina ar ran y Cyngor Prydeinig. Es i ar y we i gael mwy o wybodaeth – ac ar ôl bod yn y ddinas ei hunan ddwywaith, mae'n deg gallu cadarnhau nad yw gwybodaeth 'ail law' ddim byd i'w gymharu â phrofiad personol. Mae Chongqing dros 300 milltir o Beijing. Dinas wedi ei adeiladu ar gyrion afon Yangtze ac afon Jailing. Mae rhai teithwyr yn gwybod am y ddinas gan mai dyma lle mae teithiau i'r 'Tair Hafan' (Three Gorges) yn cychwyn ac fe fydd haneswyr yn adnabod enw'r ddinas am ei phwysigrwydd yn hanes yr ail Ryfel Byd.
Dyma'r ddinas mae Rhodri Morgan wedi arwyddo 'Cofnodiad o Ddealltwriaeth' cydrhyngddi hi a Chymru, felly dyna pam aeth y prifathrawon a'r dirprwyon o ysgolion Cymru i Chongqing o Beijing ym mis Mai. Cawsom ein gefeillio gydag ysgolion yn y ddinas. Ar ôl wythnos fythgofiadwy a llwyddiannus cawsom gefnogaeth gan y Cynulliad a'r Cyngor Prydeinig i ymweld â'n hysgolion am yr ail dro y mis Tachwedd. Y tro hwn cafodd aelodau eraill o'n hysgolion gyd-ymdeithio a ni.
Mae mwy o bobl yn byw yn Chongqing nag yng Nghymru gyfan –tua 7 miliwn, a'r rhan fwyaf yn byw mewn adeiladau dros 35 llawr o uchder. Ychydig dros 10 mlynedd yn ôl dim ond 10 llawr o'r ddaear oedd yr adeilad uchaf yn y ddinas. Mae'r datblygiad yn anhygoel. 26 pont yn ymuno gwahanol ardaloedd o'r ddinas a hyd yn oed y gyrwyr bysiau yn ansicr o'u ffordd o amgylch y ddinas (fel y profais!) Gan fod yr ardal yn fynyddig mae'n rhaid adeiladu i fyny tua'r awyr ac y mae'r llygredd o'r gorsafoedd pŵer glo yn amlwg.
Dyma i chi ychydig o 'frasluniau' ac argraffiadau o'r profiadau sy'n aros yn y cof:

- Dynion, a merched, 'bang bang' yn cerdded yr un strydoedd a dynion (a gwragedd) busnes.
- Diffyg unrhyw fath o ddeddfwriaeth 'Diogelwch ac Iechyd'
- Gwestai 5 seren rhyngwladol wrth ymyl cartrefi tlawd fel y trydydd byd.
- Tai'n cael ei dymchwel er mwyn 'datblygiad' a'r perchnogion yn cael eu talu llai na sydd angen i brynu lle arall i fyw.
- 'Llwyddiant' y ddinas yn cael ei adlewyrchu gan ganghennau 'McDonalds' a 'Starbucks' yng nghanol y ddinas.
- Dylanwad 'un plentyn' ar deuluoedd.
- Ysgolion o 4,000 o ddisgyblion (faint oedd wedi clywed am Tiananmen?)
- Pwysigrwydd o fod 'y gorau' – fel ysgol ac fel disgybl.
- Oriau ysgol – 8a.m. hyd 7p.m. a system wahanol iawn i'r un yng Nghymru.
- Ysgol yn un breswyl i dros 1,000 o blant o ardaloedd tu allan i'r ddinas.
- Dylanwad y 'we' – pa fath o argraff mae'n rhoi o fywyd tu allan i Tsieina?
- Pwysigrwydd yr unigolyn ond dim ond fel rhan o'r 'torfol' (rhaid cael profiad o wrando ar ddarlith pennaeth un o brifysgolion Beijing i geisio cychwyn deall hyn!)

Mae gennyf fy marn bersonol am rai o'r mynegiadau hyn ond gorffennaf gyda geiriau cynrychiolydd y Cyngor Prydeinig yn Beijing am Tsieina: *'Nothing is what it seems!'*

***Diaconiaid Bethlehem:*** Carol Davies Jones, Delwyn Siôn, Dylan John, Eurfryn Thomas (trys), Gwenno Huws, Ifan Roberts, Joy Glyn, June Huws, Marian Evans, Nerys Williams, Peredur Evans (trys), Peter Wynn Thomas, Rhodri Gwynn-Jones, Rhys Dafis (ysg), Wyn Jones.

**Deunydd i'r bwletin at Rhys (029 20 891 360) neu Ifan (029 20 890 493)**